



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cynllun Cyhoeddi Comisiynydd y Gymraeg



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:

- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.cymru
- Gwefan: comisiynyddygyymraeg.cymru

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

Cynnwys

1	Cynllun Cyhoeddi'r Comisiynydd	1
---	--------------------------------	---

1 Cynllun Cyhoeddi'r Comisiynydd

- 1.1 Ein hymrwymiad yw bod yn dryloyw ac yn agored ynglyn â'r gwaith a wnawn a sut y gwariwn arian cyhoeddus.
- 1.2 O dan adran 19(1) o'r Ddeddf Ryddid Gwybodaeth, mae'n rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg, fel corff a ariannir gan Weinidogion Cymru, fabwysiadu a chynnal cynllun cyhoeddi sy'n nodi'r dosbarthiadau o wybodaeth a gadwn, y fformat y bwriadwn gyhoeddi'r wybodaeth ynddo a ph'un a fydd tâl yn cael ei godi am y wybodaeth.
- 1.3 Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi mabwysiadu [cynllun cyhoeddi cnghreiffiol yr ICO](#), sy'n nodi'r saith dosbarth o wybodaeth a ddylai gael eu cyhoeddi gan gyrff cyhoeddus.
- 1.4 Mae'r tabl isod yn nodi'r saith dosbarth o wybodaeth a'r wybodaeth sydd ar gael y mae Comisiynydd y Gymraeg yn eu cyhoeddi ym mhob dosbarth, ble i ddod o hyd i'r wybodaeth a sut i gael gafael arni.
- 1.5 Ni chodir tâl am wybodaeth sydd wedi ei chyhoeddi ar ein gwefan. Os oes angen copi papur o'r wybodaeth ar ein gwefan arnoch, cysylltwch â ni.
- 1.6 Bydd y cynllun cyhoeddi yn cael ei gynnal a'i ddiweddarau gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- 1.7 Os hoffech wneud cais am wybodaeth nad yw ar gael drwy ein cynllun cyhoeddi, gallwch wneud cais Rhyddid Gwybodaeth drwy ysgrifennu at y cyfeiriad uchod. Noder ei bod yn bosib na allwn ddarparu gwybodaeth os bydd wedi ei diogelu o dan y Ddeddf Diogelu Data neu drwy eithriad i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a gall ddogfennau gael eu golygu yn unol â hynny.

Cyhoeddi setiau data i'w hailddefnyddio

- 1.8 Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi, o dan ei chynllun cyhoeddi, unrhyw ddata sydd ganddi ac y gofynnwyd amdani, ynghyd ag unrhyw fersiynau wedi'u diweddarau, oni bai ei bod wedi'i bodloni nad yw'n briodol gwneud hynny. I'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, rhaid iddi ei gyhoeddi ar ffurf electronig y gellir aildefnyddio.
- 1.9 Os yw'r set ddata neu unrhyw ran ohoni'n waith hawlfraint perthnasol ac os mai'r Comisiynydd yw'r unig berchennog, mae'n rhaid i'r Comisiynydd drefnu ei bod ar gael i'w hailddefnyddio o dan delerau trwydded benodedig. Nid yw setiau data y mae'r hawlfraint neu'r hawliau cronfa ddata drostynt yn perthyn i'r Goron yn weithiau hawlfraint perthnasol.
- 1.10 Mae'r Cod Ymarfer Setiau Data yn argymhell y dylai awdurdodau cyhoeddus drefnu bod setiau data ar gael i'w hailddefnyddio o dan y Drwydded Llywodraeth Agored.

1.11 Diffinnir y term 'dataset' yn adran 11(5) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Diffinnir y termau 'relevant copyright work' a 'specified licence' yn adran 19(8) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau ar y darpariaethau ynglŷn â setiau data yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r rhain yn esbonio'r hyn a olygir gan "not appropriate" a "capable of re-use".

1. Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Gwybodaeth am y Comisiynydd, lleoliadau a chysylltiadau, llywodraethu cyfansoddiadol a chyfreithiol.

Gwybodaeth	Lleoliad
Rolau a cyfrifoldebau	Cynllun Strategol
Strwythur sefydliadol	Strwythur sefydliad
Gwybodaeth ynglŷn â'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i swyddogaethau	Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Polisi Gorfodi Fframwaith Rheoleiddio Ein gwaith
Uwch Swyddogion ac Aelodau'r Bwrdd Rheoli	Y Comisiynydd Tîm Rheoli Adroddiad Blynyddol
Lleoliad a manylion cyswllt	Cysylltwch â ni

2. Beth rydym yn ei wario a sut y gwnawn hynny

Gwybodaeth ariannol yn ymwneud â'n incwm a'r gwariant arfaethedig a gwirioneddol, tendro, caffael a chontractau

Gwybodaeth	Lleoliad
Datganiadau ariannol, cyllidebau ac adroddiadau amrywiol	Amcangyfrif blynyddol Adroddiadau Blynyddol
Manylion gwario dros £25,000	Gwerthwchi Gymru (tendrau dros 25,000)
Manylion am gontractau a thendrau sy'n werth dros £10,000	Cysylltwch â ni
Manylion am wariant y llywodraeth ar gerdyn caffael dros £500	Cysylltwch â ni
Rhaglen gyfalaf	Cyfrifon Blynyddol Adroddiad blynyddol Amcangyfrif Blynyddol
Adolygiadau o wariant	Cysylltwch â ni
Adolygiadau archwilio ariannol	Datganiad yr archwiliwr yn y cyfrifon blynyddol
Lwfansau a threuliau uwch aelodau o staff ac aelodau o'r Bwrdd	Cyfrifon blynyddol

Strwythurau graddio a thalu	Cyfrifon blynyddol
Gweithdrefnau Caffael	Polisi Tendrau
Datganiadau ariannol ar gyfer prosiectau a digwyddiadau	Cysylltwch â ni
Rheoliadau ariannol mewnol	Cysylltwch â ni

3 Beth yw ein blaenoriaethau a sut rydym yn gwneud?

Gwybodaeth am strategaethau a pherfformiad, cynlluniau, asesiadau, arolygon ac adolygiadau.

Gwybodaeth	Lleoliad
Cynlluniau strategol	Cynlluniau strategol
Cynllun busnes blynyddol	Cysylltwch â ni
Adroddiad blynyddol	Adroddiad blynyddol
Adolygiadau perfformiad mewnol ac allanol	Cysylltwch â ni
Adroddiadau arolygu	Cysylltwch â ni
Asesiadau o'r effaith ar breifatrwydd	Cysylltwch â ni

4. Sut rydym yn gwneud penderfyniadau

Cynigion a phenderfyniadau polisi. Prosesau gwneud penderfyniadau, gweithdrefnau a meini prawf mewnol, ymgynghoriadau.

Gwybodaeth	Lleoliad
Cynigion a phenderfyniadau polisi mawr	Ymgynghoriadau
Gwybodaeth gefndirol sy'n ymwneud â'r cynigion a'r penderfyniadau polisi mawr	Cysylltwch â ni
Ymgynghoriadau cyhoeddus	Ymgynghoriadau
Cofnodion cyfarfodydd ar lefel uwch	Cysylltwch â ni

5. Polisiâu a Gweithdrefnau

Protocolau ysgrifenedig cyfredol er mwyn cyflwyno ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau

Gwybodaeth	Lleoliad
Polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer cynnal busnes adrannol	Polisiâu ar ein gwefan
Polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer darparu gwasanaethau	Polisi Cwynion Corfforaethol
Polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a chyflogi staff	Cysylltwch â ni
Rheoli cofnodion a pholisiâu data personol	Cysylltwch â ni

6. Rhestrau a Chofrestrau

Gwybodaeth sy'n cael ei chadw mewn cofrestrau yn ôl y gyfraith a rhestrau a chofrestrau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r awdurdod.

Gwybodaeth	Lleoliad
Cofnodion datgeliadau	Cysylltwch â ni
Cofrestr o roddion a lletygarwch wedi eu darparu gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg, Panel Cynghori ac Uwch Aelodau o Staff.	Cysylltwch â ni

7. Y gwasanaethau a gynigir

Cyngor ac arweiniad, taflenni a llyfrynnau, trafodion a datganiadau i'r cyfryngau. Disgrifiad o'r gwasanaethau a gynigir.

Gwybodaeth	Lleoliad
Cyfrifoldebau rheoleiddio	Tudalennau'r wefan Fy hawliau
Taflenni, llyfrynnau a chylchlythyrau	Cyhoeddiadau
Cyngor ac arweiniad	Tudalennau'r wefan
Datganiadau i'r cyfryngau	Newyddion / cyhoeddiadau